Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

12 Ebrill 2017

Annwyl Carl

Y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yw un o'r pwyllgorau sy'n gyfrifol am adrodd i'r Cynulliad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Carchardai a Llysoedd.

Yn ein cyfarfod ar 5 Ebrill 2017, nododd yr Aelodau eu bod yn cytuno gyda Llywodraeth Cymru fod Cymalau 4-6 o'r Bil yn gwneud darpariaeth a fyddai'n dod o fewn y pynciau datganoledig o "les cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol", "diogelu a llesiant plant" a "gofalu am blant". Nid oedd y Pwyllgor wedi ystyried a oedd angen caniatâd ar gyfer Cymal 54 ac Atodlen 13 o'r Bil gan fod y darpariaethau hynny y tu allan i gylch gwaith y Pwyllgor.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid ceisio caniatâd y Cynulliad hefyd ar gyfer Cymalau 8, 15-20 ac Atodlen 1 y Bil, i'r graddau y maent yn gwneud darpariaeth ynghylch ymchwiliad i farwolaeth mewn cartref diogel i blant yng Nghymru.

Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn darparu fel a ganlyn: -

> *Clauses 4 to 20 and Schedule 1 place the Prison and Probation Ombudsman on a statutory footing. In so far as the Prison and Probation Ombudsman has a role in investigating deaths and complaints in secure children's homes, the provision of secure children's homes is devolved to Wales as part of paragraph 15 of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006 and the protection and well-being of children, and therefore this provision requires a Legislative Consent Motion.*

Mae'r Pwyllgor yn dymuno derbyn eglurhad ar ddull gweithredu Lywodraeth Cymru, a pham yn benodol nad yw caniatâd y Cynulliad yn cael ei geisio ar gyfer Cymalau 8, 15-20 ac Atodlen 1 o'r Bil.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

I gynorthwyo'r Pwyllgor wrth gwrdd â'r dyddiad cau ar gyfer adrodd, sef 4 Mai, byddai ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn hyn yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Yn gywir

Lynne Neagle AC
Cadeirydd